

# SIEFFRE o FYNWY (1090? - 1155), sef Galfridus (Gaufridus) Artur neu Galfridus (Gaufridus) Monemutensis, esgob Llanelwy a chroniclydd

**Enw:** Sieffre

**Dyddiad geni:** 1090?

**Dyddiad marw:** 1155

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** esgob Llanelwy a chroniclydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** Idris Llewelyn Foster

Ganwyd rhwng 1090 a 1100; Llydawiad, mae'n debyg, ydoedd ei deulu, a magwyd yntau mewn awyrgylch Normanaidd-Lydewig yn nhref Mynwy. Ymddengys ei enw ar freinlen abaty Osney, Rhydychen, yn 1129, a rhwng hynny a 1151 ceir ei enw ar chwe dogfen arall yn perthyn i gylch Rhydychen. Yn y rhain cysylltir ef â'i gyfaill Gwallter, archddiacon Rhydychen, 1115-51, a phennaeth y coleg o ganoniaid seciwlar a oedd yn eglwys S. George, Rhydychen, tan 1149. Disgrifir Sieffre fel 'magister' mewn rhai o'r dogfennau hyn. Yn 1151 etholwyd ef yn esgob Llanelwy; urddwyd Sieffre yn offeiriad yn Westminster ar 11 Chwefror 1152 a chysegrwyd ef yn esgob yn Lambeth ar 24 Chwefror 1152, ond nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod wedi ymweld â'i esgobaeth. Yn ôl y croniclau Cymraeg bu farw yn 1155.

Prif waith Sieffre yw ei 'Historia Regum Britanniae' a ymddangosodd yn nechrau 1136. Rhwng 1136 a 1148 bu ef ei hun yn gyfrifol am bedair fersiwn ohono. Mewn un fersiwn ceir cyflwyniad i [Robert, dug Caerloyw](#); mewn un arall, anerchir [Robert](#) a Waleran de Beaumont, iarll Meulan (neu Mellent); mewn un arall eto cyflwynir y gwaith i'r brenin Steffan ac i [Robert](#); ac y mae'r bedwaredd heb gyflwyniad o gwbl. Yng nghorff y gwaith (sef llyfr vii yn ôl rhaniad y golygyddion diweddar) daw 'Proffwydoliaethau Myrddin,' a chyflwynir y llyfr hwn i Alexander, esgob Lincoln (yr oedd Rhydychen yn yr esgobaeth honno). Mae'n sicr fod yr adran hon wedi ymddangos ar wahân rhwng 1134-5, oherwydd dyfynna Ordericus Vitalis ohoni yn ei 'Historia Ecclesiastica,' 1135. Rhennir yr 'Historia Regum Britanniae' i chwe adran (neu 12 llyfr yn ôl y golygyddion) ac ynddynt dyry Sieffre 'hanes' y Brythoniaid o ddyfodiad Brutus hyd ddyfodiad y Saeson; eithr y mae'n gwbl eglur nad canu clodydd Brythoniaid Cymru ydoedd amcan yr awdur. Dywed Sieffre mai ei brif ffynhonnell ydoedd 'llyfr hen iawn' ('quendam britannici sermonis librum vetustissimum') a roddwyd iddo gan ei gyfaill Gwallter, ond ni welwyd arlliw o'r llyfr hwn erioed. Y mae'n sicrach ei fod wedi dibynnu ar [Gildas](#), '[Nennius](#),' a Beda yn ogystal ag ar yr hen achau. Tynnodd hefyd oddi ar y *Beibl*, y tadau eglwysig, ac oddi ar awduron Lladin fel Vergil, Juvenal, Lucan, Sallust, ac Ovid. Y mae ôl y gwahanol ramantau ar y gwaith a defnyddiwyd traddodiadau lleol y gwyddai Sieffre amdanynt. Bu'r gwaith yn eithriadol boblogaidd o'r cychwyn; y mae tua 200 o lawysgrifau ohono ar gael, rhyw 50 ohonynt yn perthyn i'r 12fed ganrif, ond hyd yn hyn nid yw'r holl lawysgrifau wedi eu cwbl archwilio.

Trwy'r 'Historia' daeth y [brenin Arthur](#) i fri newydd a chyflwynwyd 'mater Prydain' i'r byd. Cafwyd trosiad Cymraeg o'r 'Historia' yn bur gynnar - 'Ystoria Brenhinedd y Brytaniaid' neu 'Brut y Brenhinoedd.' Credir bod tri pherson gwahanol wedi cyfieithu'r gwaith yn Gymraeg, pob un yn ei ffordd ei hun. Y mae ar gael heddiw naw o gopiau a ysgrifennwyd cyn diwedd y 14eg ganrif; er enghraifft, perthyn 'Brut Dingestow' (llawysgrif NLW MS 5266B) i tua 1300, ond y mae wedi ei seilio ar destun a ysgrifennwyd yn nechrau'r 13eg ganrif. Ceir fersiwn hefyd yn 'Llyfr Coch Hergest.' Argraffwyd yr 'Historia' gyntaf gan Badius Ascanius ym Mharis yn 1508 dan olygiaeth Ivo Cavellatus; bu argraffiadau eraill yn 1517 a 1587 (yr olaf gan Jerome Commelin yn Heidelberg). Hyd yn hyn, fodd bynnag, ni chafwyd testun beirniadol cyflawn o'r gwaith. Rhwng 1148 a 1150 cyfansoddodd Sieffre ei 'Vita Merlini,' cerdd Ladin o 1528 o linellau yn y mesur chweban wedi ei chyflwyno i Robert de Chesney, esgob Lincoln.

## Awdur

Yr Athro Idris Llewelyn Foster, (1911 - 1984)

## Ffynonellau

A. Griscom, *The Historia Regum Britanniae of Geoffrey of Monmouth* (1929)

E. K. Chambers, *Arthur of Britain* (1927)

E. Faral, *La Légende Arthurienne. Études et documents* (Paris 1929)

J. E. Lloyd *The English historical review*, lvii, 1942, 460-8

H. Lewis, *Brut Dingestow* (Caerdydd 1942)

John Rhys a J. Gwenogvryn Evans, *The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog 1911), ii, 1890

J. J. Parry, *Brut y Brenhinedd. Cotton Cleopatra version* (Oxford 1937)

J. Hammer, *Quarterly Bulletin of the Polish Institute of Arts and Sciences in America*, Ionawr 1944, 501-64


J. J. Parry, *The Vita Merlini (Urbana 1925)*

E. Jones, *Geoffrey of Monmouth, 1640-1800*, 1944


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Sieffre o Fynwy](#) 

## Gweithiau

Geoffrey of Monmouth, Aaron Thompson (cyf.), [04615British history](#) 

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [89028232](#) 

Wikidata: [Q188344](#) 

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 